# CYNHADLEDD TAI YN GYNTAF CYMRU 2026

cymorth cymru
connect • strengthen • influence

## RHAGLEN

| | |
|---|---|
| 09:30 | **CROESO**<br>• Katie Dalton, Cymorth Cymru |
| 09:35 | **ARBENIGWYR TRWY BROFIAD: EFFAITH TAI YN GYNTAF**<br>• Phil a Scotty, Arbenigwyr trwy Brofiad<br>Mae Tai yn Gyntaf yn cael effaith drawsnewidiol ar fywydau pobl, ac rydym wrth ein bodd yn cyflwyno sgyrsiau a recordiwyd o flaen llaw gyda Phil a Scotty, a gafodd gymorth gan dîm Codi,Tai yn Gyntaf yng Nghasnewydd. Byddwn yn clywed am yr effaith a gafodd y model hwn ar eu bywydau, a sut yr arweiniodd hyn at y rhan a chwaraewyd gan y ddau ohonynt yn natblygiad y Ddeddf Digartrefedd. |
| 09:45 | **PRIF ARAITH: Y GWEINIDOG CABINET DROS LYWODRAETH LEOL, TAI A CHYNLLUNIO**<br>• Siân Gwenllian MS<br>Pleser o'r mwyaf i ni yw croesawu Sian Gwenllian i draddodi araith yn ein cynhadledd – un o'i hareithiau cyntaf i'r sector digartrefedd ers ei phenodi'n Weinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio. Ym maniffesto Plaid Cymru gwnaed ymrwymiad i wreiddio dull Tai yn Gyntaf, trawma-wybodus a pherson-ganolog, o fynd i'r afael â digartrefedd, ac edrychwn ymlaen at glywed Gweinidog y Cabinet yn amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer tymor cyfredol y Senedd. |
| 10:15 | **A DDYLEN NI ANELU AT WREIDDIO EGWYDDORION TAI YN GYNTAF MEWN GWASANAETHAU DIGARTREFEDD EHAGACH? (A BETH ALLAI FOD YN RHWYSTR I NI?)**<br>• Catherine Docherty, Byddin yr Iachawdwriaeth<br>• Sian Aldridge, The Wallich<br>Er bod Tai yn Gyntaf yn parhau i fod yn fodel penodol, ac wedi derbyn adnoddau i gwrdd ag anghenion carfan benodol, mae rhai wedi codi'r cwestiwn tybed a ddylai gwasanaethau digartrefedd traddodiadol dynnu ysbrydoliaeth o'r dull hwn. Byddwn yn trafod hyn – a beth allai fod yn rhwystrau gwleidyddol, ymarferol ac ariannol rhag ei gyflawni – gyda dwy arweinydd y sector yng Nghymru y mae eu sefydliadau'n bwrw golwg dros Tai yn Gyntaf ochr yn ochr â gwasanaethau mwy traddodiadol. |
| 10:55 | **TORIAD AM LUNIAETH YSGAFN** |
| 11:15 | **TAI YN GYNTAF YNYS MÔN: ADLEWYRCHIADAU ERS YR ACHREDIAD**<br>• Jo Parry, The Wallich<br>• Alex Osmond, Cymorth Cymru<br>Dyfarnwyd Achrediad Tai yn Gyntaf i Ynys Môn yn 2022, yn dilyn asesiad trylwyr o ffyddlondeb y gwasanaeth i'r egwyddorion. Dair blynedd yn ddiweddarach, trefnwyd iddynt gymryd yr ymarfer adlewyrchol canol cyfnod i ystyried y cynnydd a wnaed ers yr achrediad. Yn y sesiwn hon, byddwn yn clywed eu sylwadau ar ddatblygiad y gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf. |

| | |
|---|---|
| **11:45** | **SESIYNAU GRŴP** |

**TAI YN GYNTAF I FERCHED**

- Alison Stokes, Cymorth i Ferched Thrive
- Stephanie Grimshaw, Cymorth i Ferched Cymru

Bydd y sesiwn grŵp yma'n adlewyrchu ar Tai yn Gyntaf i Ferched, sut y gall gwrdd ag anghenion merched sy'n wynebu'r ymyleiddio a'r allgáu mwyaf, a beth sydd angen digwydd i'w wneud yn realiti yng Nghymru.

**TAI YN GYNTAF I BOBL IFANC**

- Emma Evans, Llamau
- Alastair Dunford, Llamau

Gyda Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc yn cael ei gyflenwi mewn sawl lleoliad ledled Cymru, bydd y sesiwn grŵp yma'n ystyried y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, a beth fydd dyfodol y bobl ifanc sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

**BETH SYDD EI ANGEN I SYMUD TAI YN GYNTAF YN EI FLAEN YNG NGHYMRU?**

- Cymorth Cymru

Ers 2018, Mae Tai yn Gyntaf wedi tyfu'n gyson yng Nghymru, gyda channoedd o bobl yn derbyn cymorth i gael tenantiaethau. Bydd y sesiwn grŵp hon yn ystyried beth sydd ei angen i fynd â Tai yn Gyntaf i'r lefel nesaf yng Nghymru.

**12:45 CINIO A RHWYDWEITHIO**

**13:30 DYSGU GAN YR OCHR DRAW I'R FFIN: TAI YN GYNTAF YN NINASOEDD MANCEINION A LERPWL**

- Emily Cole, Greater Manchester Housing First
- Sarah Goodwin, Liverpool City Region Housing First

Yn sgil datganoli pwerau a chyllid gan Lywodraeth y DU i ranbarthau maerol yn Lloegr, mae Tai yn Gyntaf wedi datblygu a thyfu mewn nifer o'r lleoliadau hyn. Pleser yw cael croesawu'r arweinwyr rhaglen ar ran Tai yn Gyntaf mewn rhannau o ddinasoedd Mancenion a Lerpwl, i rannu eu hadlewyrchiadau ar y prif alluogwyr, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n wynebu Tai yn Gyntaf yng ngogledd-orllewin Lloegr.

**14:30 TORIAD AM LUNIAETH YSGAFN**

**14:45 SGRINIO FFILM: BEYOND THE BRIDGE – ATEB I DDIGARTREFEDD**

- A film by Don Sawyer and Tim Hashko

Mae'n bleser gennym sgrinio 'Beyond the Bridge', ffilm ddogfen a gyfarwyddwyd gan Don Sawyer a Tim Hashko, sy'n archwilio systemau ymatebion digartrefedd llwyddiannus ledled yr Unol Daleithiau. Mae'n dilyn y criw ffilmio wrth iddynt yrru dros 40,000 milltir i ymweld â 12 dinas. Mae'n ffocysu ar sut y mae cymunedau'n cyflawni canlyniadau mesuradwy drwy Tai yn Gyntaf, cydgysylltu dwfn, a chefnogaeth dosturiol yn hytrach na dim ond mesurau cosbol.

**16:15 ADBORTH A SYLWADAU CLO**

**16:30 DIWEDD**

cymorth cymru
connect • strengthen • influence